



Annwyl Syr/Fadam

**Swyddfa Bost® Llanrhymni
72 Rhodfa Countisbury, Llanrhymni, Caerdydd, CF3 5YR**

Penderfyniad yn dilyn Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol

Rwy'n ysgrifennu i gadarnhau y byddwn yn bwrw ymlaen â symud y gangen uchod i Newsbase, 52 Rhodfa Countisbury, Llanrhymni, Caerdydd, CF3 5SN, lle caiff ei rhedeg fel un o brif ganghennau ffasiwn newydd Swyddfa'r Post.

Cawsom un ymateb unigol gan gwsmer yn ystod y cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol. Roedd yr ymateb yn croesawu rhwyddineb y mynediad a'r oriau agor estynedig a fyddai ar gael yn y gangen newydd.

Rhoddais ystyriaeth ofalus i'n cynllun gwreiddiol, yr ymateb a gafwyd yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r effaith ar drigolion lleol a'r gymuned ehangach. Wedi cael golwg ar y mynediad i gerddwyr a cherbydau i'r lleoliad newydd, rwy'n ffyddiog fod y gangen newydd mewn lleoliad cyfleus ac y bydd y ffordd newydd hon o gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post yn dal i ddiwallu anghenion cwsmeriaid ac, ar yr un pryd, yn help i roi dyfodol cynaliadwy i'r gangen. Ar hyn o bryd mae gennym dros 3500 o ganghennau sy'n cynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y ffordd newydd hon, ac mae adborth y cwsmeriaid a'r gweithredwyr wedi bod yn galonogol iawn.

Rydym yn sylweddoli fod y Swyddfa Bost yn chwarae rhan bwysig ym mywydau cwsmeriaid, yn enwedig y bobl hŷn a phobl anabl, ac rydym am wneud ein gwasanaethau mor hygyrch â phosibl. Cyn i'r gangen newydd agor, bydd gwaith yn cael ei wneud wrth y fynedfa er mwyn cael mynediad gwastad i'r siop. Y tu mewn, bydd y brif gangen Swyddfa'r Post fodern ffasiwn newydd yn bodloni ein rhagofynion o safon uchel. Bydd yn cynnwys dau leoliad cownter â sgrin a chyfleusterau lefel-isel. Byddwn yn cydweithio'n glos â'r gweithredydd newydd wrth ddylunio'r gangen newydd i wneud yn siŵr fod yna ddigon o le a digon o breifatrwydd i gwsmeriaid Swyddfa'r Post y tu mewn a bod y fynedfa a'r lle y tu mewn i'r siop, gan gynnwys y llwybrau a'r manau ciwio, yn cael eu cadw'n rhydd rhag rhwystrau. Bydd yr un dewis eang o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd i gwsmeriaid, ynghyd â dewis o Arian Teithio ar gais, ac oriau agor estynedig bob dydd Sadwrn.

Er bod yna beiriant arian heb frand Swyddfa'r Post yn y lleoliad newydd, mae'n fwriad gan y gweithredydd newydd i osod peiriant arian Swyddfa'r Post y tu allan. Bydd hyn yn amodol ar archwiliad, unrhyw gydsyniadau gofynnol a chaniatâd cynllunio. Yn y cyfamser, neu oni fydd hyn yn bosibl, gall cwsmeriaid godi arian wrth gownter y Swyddfa Bost yn ystod oriau agor estynedig y gangen newydd. Yn ogystal, gall cwsmeriaid ddefnyddio'r peiriant arian sydd ar gael 24 awr y dydd yn Swyddfa Bost Broadway. Mae modd cyrraedd yno trwy ddefnyddio gwasanaeth bws rheolaidd.

Hefyd, bydd yna fan gwasanaeth Swyddfa'r Post wrth dil y siop, lle bydd y rhan fwyaf o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael ochr yn ochr â'r trafodion manwerth. Bydd y man gwasanaeth hwn ar agor saith diwrnod yr wythnos a bydd yn cynnig oriau agor hirach o dipyn na chownter y prif Swyddfa Bost. Felly, bydd modd cyrchu'r rhan fwyaf o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post wrth siopa saith diwrnod yr wythnos ac ar adegau mwy cyfleus. Mae'r manylion llawn am y gangen newydd ar gael ar ddiwedd y llythyr hwn.

Bydd y gangen bresennol yn cau am 17:30 ddydd Llun 17 Gorffennaf 2017, a bydd y gangen newydd yn agor yn Newsbase, 52 Rhodfa Countisbury, am 13:00 ddydd Mawrth 18 Gorffennaf 2017. Os bydd rhaid newid y dyddiadau hyn, am resymau na ellir eu rhagweld ar hyn o bryd, bydd posteri'n cael eu gosod yn y gangen er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid. Yn ystod y cyfnod trosglwyddo, gall cwsmeriaid ddefnyddio unrhyw wasanaeth Swyddfa'r Post arall sy'n gyfleus. Isod, fe welwch fanylion am gangen Swyddfa'r Post gyfagos:

- Swyddfa Bost Tredelerch, 761 Heol Casnewydd, Tredelerch, Caerdydd, CF3 4AJ

Mae copi o'r llythyr hwn ar gael hefyd ar ein gwefan yn postofficeviews.co.uk. Wrth gyrraedd y wefan, gofynnir ichi gofnodi'r cod ar gyfer y gangen hon: 17061199

Mae'r newid hwn i rwydwaith Swyddfa'r Post yn cael ei wneud yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i'r rhwydwaith, yn ôl yr hyn a gytunwyd â chorff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr. Mae copi llawn o'r Cod Ymarfer ar gael trwy fynd i'n gwefan yn www.postofficeviews.co.uk, neu gallwch gael copi wrth gysylltu â ni yn y cyfeiriad ar ddiwedd y llythyr hwn.

Diolch i chi am ystyried ein cynllun. Mawr obeithiwn y byddwch chi a'n cwsmeriaid yn dal i gefnogi eich prif gangen Swyddfa'r Post newydd.

Yr eiddoch yn gywir



Suzanne Richardson
Rheolwraig Rhwydwaith Rhanbarthol

Sut i gysylltu â ni:

 postofficeviews.co.uk

 comments@postoffice.co.uk

Llinell Gymorth: 03457 22 33 44

Ffôn testun: 03457 22 33 55

 FREEPOST Your Comments

Sylwch taw hwn yw'r cyfeiriad

llawn ac nad oes angen rhagor o

fanylion.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar-lein. I'w gweld, sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa app.



I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu Braille, byddwch cystal â chysylltu â'r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03457 22 33 44 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.

Manylion am y gwasanaeth newydd:

Taflen wybodaeth Swyddfa Bost Llanrhymni															
Cyfeiriad	Newsbase 52 Rhodfa Countisbury Llanrhymni Caerdydd CF3 5SN														
Oriau agor y Swyddfa Bost	<table border="1"> <tr><td>Llun</td><td>09:00 - 17:30</td></tr> <tr><td>Maw</td><td>09:00 - 17:30</td></tr> <tr><td>Mer</td><td>09:00 - 17:30</td></tr> <tr><td>Iau</td><td>09:00 - 17:30</td></tr> <tr><td>Gwe</td><td>09:00 - 17:30</td></tr> <tr><td>Sad</td><td>09:00 - 17:30</td></tr> <tr><td>Sul</td><td>Ar gau</td></tr> </table>	Llun	09:00 - 17:30	Maw	09:00 - 17:30	Mer	09:00 - 17:30	Iau	09:00 - 17:30	Gwe	09:00 - 17:30	Sad	09:00 - 17:30	Sul	Ar gau
Llun	09:00 - 17:30														
Maw	09:00 - 17:30														
Mer	09:00 - 17:30														
Iau	09:00 - 17:30														
Gwe	09:00 - 17:30														
Sad	09:00 - 17:30														
Sul	Ar gau														
Oriau Agor newydd y gwasanaeth Swyddfa'r Post wrth gownter y siop	<table border="1"> <tr><td>Llun-Sad</td><td>06:00 - 18:00</td></tr> <tr><td>Sul</td><td>06:00 - 13:00</td></tr> </table>	Llun-Sad	06:00 - 18:00	Sul	06:00 - 13:00										
Llun-Sad	06:00 - 18:00														
Sul	06:00 - 13:00														
Pellter	60 metr o'r gangen bresennol, ar hyd tir gwastad.														
Cynhyrchion a Gwasanaethau	Bydd yr un dewis eang o gynhyrchion a gwasanaethau ar gael o hyd yn ogystal â gwell dewis o arian teithio ar gais. Yn amodol ar archwiliad ac unrhyw gydsyniadau a chaniatâd cynllunio sy'n ofynnol, bydd peiriant arian allanol Swyddfa'r Post yn cael ei symud i'r lleoliad newydd.														
Mannau gwasanaeth	Bydd yna dri man gwasanaeth, sef dau fan â sgrin, a man gwasanaeth Swyddfa'r Post wrth gownter y siop, a fydd ar gael yn ystod oriau agor y siop.														
Hygyrchedd a Gwaith hygyrchedd	<p>Mynediad a chyfleusterau Ar hyn o bryd, mae yna ris wrth y fynedfa i'r adeilad arfaethedig; fodd bynnag, byddai hon yn cael ei gwaredu er mwyn cael mynediad gwastad. Y tu mewn, byddai dolen glyw, desg ysgrifennu isel, cownter gwasanaeth isel a lle i gadair olwyn.</p> <p>Parcio Mae modd parcio ar yr heol yn union y tu allan i'r adeilad arfaethedig.</p>														
Y Siop	Siop Gyfleustra														
Dyddiad yr Adleoliad	13:00 ddydd Mawrth 18 Gorffennaf 2017														